Cyllid & Thollau EM

# Adroddiad Blynyddol CThEM 2020 ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru

## Cynnwys

Cynnwys ........ 2
DIBEN ........ 3
ADRAN 1 – NODI A RHOI SICRWYDD ........ 4
ADRAN 2 – CYDYMFFURFIO ........ 6
ADRAN 3 – CASGLU REFENIW CTIC A RHOI CYFRIF AMDANO ........ 8
ADRAN 4 – DATA AR GYFER PENNU CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU A RHAGOLYGON 9
ADRAN 5 – DATA AR GYFER RHEOLI ARIAN LLYWODRAETH CYMRU ........ 10
ADRAN 6 – GWASANAETH A CHYMORTH I GWSMERIAID ........ 11
ADRAN 7 – AILGODI TÂL AM GOSTAU CTHEM ........ **Error! Bookmark not defined.**
ATODIAD – ADRODDIAD GWYBODAETH BUSNES BLYNYDDOL 2019-20 ........ 14

**DIBEN**

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi Senedd Cymru i bennu cyfradd Treth Incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol Cymru i'w chymhwyso i incwm trethdalwyr Cymreig nad yw'n deillio o gynilion a'u hincwm nad yw'n deillio o ddifidendau. Defnyddiwyd y pŵer hwn gyntaf mewn perthynas â blwyddyn dreth 2019-20, ac mae'r cyfraddau wedi parhau i fod yr un fath â'r rheiny ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yn gweithio drwy ostwng cyfradd y DU 10c fesul £1. Codir CTIC ar ben y cyfraddau gostyngol hyn, a gall fod yn is, yn uwch neu'r un fath â chyfraddau'r DU.

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn gweinyddu CTIC drwy'r prosesau Talu Wrth Ennill (TWE) a Hunanasesiad presennol, gan gynnwys drwy ddulliau cydymffurfio a chyfathrebu presennol o ran treth incwm. Mae hyn yn sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei gasglu, ac yn y mwyafrif helaeth o achosion ni fydd trethdalwyr Cymreig yn sylwi ar unrhyw wahaniaeth yn y ffordd y mae CThEM yn rhyngweithio â nhw.

Er mwyn sicrhau bod trethdalwyr Cymreig yn cael gwasanaeth o ansawdd cyson a galluogi CThEM a Llywodraeth Cymru i fodloni eu priod gyfrifoldebau mewn perthynas â CTIC, cytunwyd ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG)[1]. Mae'r CLG yn nodi gofynion a mesurau perfformiad ar gyfer gweithredu CTIC. Un o'r gofynion allweddol yw bod CThEM yn rhoi gwybod yn flynyddol am sut mae'n darparu'r gwasanaethau y cytunwyd arnynt.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwybodaeth am weinyddiaeth CThEM o CTIC, gan gwmpasu:

- gweithgarwch cydymffurfio (gan gynnwys rhoi sicrwydd o gyfeiriadau),
- casglu refeniw CTIC a rhoi cyfrif amdano,
- gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid,
- data ar gyfer pennu cyfraddau CTIC a'u rhagolygu,
- data ar gyfer rheoli arian Llywodraeth Cymru, a'r
- gost o ddarparu CTIC, ac ailgodi tâl am gostau CThEM.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/service-level-agreement-for-operation-of-welsh-rates-of-income-tax-by-hmrc.cy

## ADRAN 1 – NODI A RHOI SICRWYDD

**Mae'n ofynnol i CThEM, yn unol â'r CLG, wneud y canlynol:**

- ***Nodi a chynnal cofnod cywir a chadarn o'r boblogaeth trethdalwyr Cymreig***

### Nodi trethdalwyr Cymreig

Cyn cyflwyno CTIC yn 2019-20, sicrhaodd CThEM ddull cadarn o **nodi** trethdalwyr Cymreig a rhoi sicrwydd bod y rhai a nodir yn gywir. Roedd hyn yn cynnwys cymharu ei ddata o ran cyfeiriadau gyda'r hyn a oedd yn cael ei ddal gan drydydd parti, ac anfon gohebiaeth uniongyrchol i drethdalwyr i ofyn iddynt sicrhau bod y cofnod o'u cyfeiriad a ddelir gan CThEM yn gywir ac yn gyfredol.

Mae nodi trethdalwyr Cymreig yn broses barhaus. Ers cyflwyno CTIC, mae CThEM wedi parhau i gyfathrebu gyda threthdalwyr ac wedi cynnal gwiriadau ar gyfer sicrhau cyfeiriadau.

Caiff y broses o nodi trethdalwyr Cymreig ei chefnogi hefyd gan **weithgarwch cydymffurfio**. Bydd union natur unrhyw weithgarwch cydymffurfio y bydd CThEM yn ymgymryd ag ef ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol yn dibynnu ar benderfyniadau treth incwm a wneir gan y Senedd a Senedd y DU. Yn gyffredinol, mwyaf y gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfundrefn, mwyaf yw'r risg o gwsmeriaid yn ymateb gydag ymddygiad diffyg cydymffurfio sy'n golygu bod gan CThEM weithgarwch cydymffurfio i ddelio ag ef. Caiff asesiad o'r risg o ymddygiad diffyg cydymffurfio a gweithgarwch cydymffurfio ei grynhoi yn Adran 2.

### Trosolwg o gyfathrebu

Mae CThEM yn defnyddio'r sianeli cyfathrebu helaeth presennol sydd ganddo gyda threthdalwyr i atgyfnerthu negeseuon allweddol CTIC. Cyfathrebwyd gyda chwsmeriaid drwy sianeli sy'n cynnwys cyfryngau cymdeithasol ar-lein, a'r Cyfrif Treth Personol. Mae'r dulliau cyfathrebu hyn wedi canolbwyntio ar angen y cwsmer i ddiweddaru manylion ei gyfeiriad gyda CThEM pan fydd yn symud.

Mae CThEM wedi cyfathrebu gyda chyflogwyr drwy sianeli sy'n cynnwys Bwletin y Cyflogwr, Diweddariad i Asiantau, cysylltiad Rheolwyr Cydymffurfiad Cwsmeriaid gyda busnesau mawr a chyrff cyhoeddus, fforymau ar gyfer cyflogwyr, rheolwyr ac asiantau cyflogresi, gov.uk a chyfryngau cymdeithasol ar-lein. Mae'r dulliau cyfathrebu hyn wedi canolbwyntio ar atgoffa cwsmeriaid o'r pwysigrwydd o gymhwyso'r codau 'C' yn gywir a anfonwyd atynt gan CThEM.

Bydd CThEM yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ei ddull cyfathrebu.

**Gweithgarwch nodi a rhoi sicrwydd a wnaed yn 2019-20**

*Cymharu data sydd gan CThEM ynghylch cyfeiriadau gyda data cyfeiriadau trydydd parti*

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer cyflwyno CTIC yn 2019-20, cynhaliodd CThEM ymarfer gwrthdaro data a anelodd at gyfateb cofnodion cyfeiriadau CThEM i ddata trydydd parti, megis y gofrestr etholiadol, data a gedwir gan asiantaethau gwirio credyd, a chofnodion cyflogwyr. Roedd hyn wedi galluogi CThEM i brofi a oedd cofnodion cyfeiriadau eraill yn cyd-fynd â'r trethdalwyr Cymreig roedd wedi'u nodi. Rhoddodd canlyniadau'r ymarfer hwn dystiolaeth i awgrymu bod CThEM yn nodi trethdalwyr Cymreig yn gywir mewn 98-99% o'r achosion.

Bydd CThEM yn parhau i sicrhau cywirdeb wrth nodi'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig. Ar hyn o bryd, mae CThEM a Llywodraeth Cymru mewn trafodaeth ynghylch pryd fyddai'r amser gorau i ailadrodd yr ymarfer hwn.

*Gwiriadau Rheoli Ansawdd ar ddata codau post*

Mae codau post a'r eiddo o fewn iddynt yn newid weithiau i adlewyrchu eiddo newydd sy'n cael eu codi ac eiddo presennol sy'n cael eu his-rannu. Mae CThEM yn cael diweddariadau chwarterol ynghylch codau post gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n adolygu'i brosesau ar gyfer tynnu sylw at breswyliaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau cywirdeb parhaus o ran codau post (gweler yr Atodiad am ragor o fanylion).

Mae CThEM hefyd wedi datblygu sgan er mwyn sicrhau ei fod yn dal gwybodaeth gywir am godau post. Mae hyn yn gweithredu mewn dwy ran:

- Nodi cofnodion trethdalwyr sydd â rhagddodiad cod post yng Nghymru, ond lle nad yw'r cod post wedi'i nodi ar restr CThEM o godau post yng Nghymru sy'n fyw neu wedi'u dileu.
- Nodi cofnodion trethdalwyr sydd â chod post gwag, ond sydd â gair allweddol yng nghorff y cyfeiriad sy'n dangos ei fod yn god post yng Nghymru, e.e. Abertawe.

Caiff cofnodion eu diweddaru wedi hynny i sicrhau bod ganddynt y cod post a'r statws preswylio cywir.

*Sicrhau cywirdeb codau 'C' ar gyfer seneddwyr Cymreig*

Mae pob seneddwr Cymreig yn drethdalwr Cymreig yn awtomatig, waeth beth yw eu man preswylio, o ganlyniad i Adran 116E o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a chânt eu nodi felly ar systemau CThEM.

Ar ôl cyflwyno CTIC yn 2019-20, cyflwynodd CThEM raglen sicrwydd ar gyfer seneddwyr Cymreig. Caiff cofnodion seneddwyr eu hadolygu'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn dreth er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol bod statws trethdalwr Cymreig pob seneddwr Cymreig yn cael ei adlewyrchu'n gywir ar systemau CThEM.

**ADRAN 2 - CYDYMFFURFIO**

**Mae'n ofynnol i CThEM, yn unol â'r CLG, wneud y canlynol:**

- ***Cymhwyso gweithgarwch cydymffurfiaeth seiliedig ar risg at y gwaith o gasglu treth incwm Cymru yn yr un modd ag y'i cymhwysir at y gwaith o gasglu treth incwm gan drethdalwyr yng ngweddill y DU***

**<u>Trosolwg o strategaeth gydymffurfio</u>**

*<u>Gwiriadau cydymffurfio i faterion treth trethdalwyr Cymreig</u>*

Mae CThEM yn asesu risgiau cydymffurfio ac yn cynnal gwiriadau i faterion treth trethdalwyr y DU, gan gynnwys trethdalwyr Cymreig.

Mae CThEM yn cynnal gweithgarwch cydymffurfio ar sail risg i'r ffordd y cesglir CTIC yn yr un ffordd ag y mae'n ei gynnal o ran casglu treth incwm oddi wrth drethdalwyr yng ngweddill y DU. Mae hyn yn cynnwys cynnal ymchwiliadau i gwsmeriaid Hunanasesiad yng Nghymru. Nid ailgodir tâl ar Lywodraeth Cymru am gostau'r gweithgarwch hwn.

O ganlyniad i'r rhyngweithiad TWE, Hunanasesiad a deddfwriaeth treth, mae CThEM yn edrych ar risgiau dros nifer o flynyddoedd er mwyn cymryd y camau cydymffurfio mwyaf priodol.

Mae CTIC yn aros ar yr un lefel â chyfraddau Lloegr a Gogledd Iwerddon, felly ar hyn o bryd nid oes risg o newid mewn ymddygiad trethdalwyr Cymreig.

*<u>Rhoi sicrwydd o gyfeiriadau</u>*

Mae CThEM yn monitro tueddiadau mudo, ar draws y ffin, unigolion o ran Hunanasesiad neu TWE drwy gymharu sylfaen cwsmeriaid, dadansoddi Ffurflenni Treth a newidiadau i gyfrifon treth i nodi tystiolaeth bosibl o ymatebion ymddygiadol cwsmeriaid. Mae CThEM hefyd yn dilysu cywirdeb symudiadau y rhoddir gwybod amdanynt a chyflawnder eu data cyfeiriadau. Bydd CThEM yn parhau â'i weithgarwch cyfathrebu â chwsmeriaid, gan atgyfnerthu angen y cwsmer i ddiweddaru manylion ei gyfeiriad gyda CThEM unwaith y bydd yn symud.

*<u>Gwella gwybodaeth</u>*

Mae CThEM yn parhau i gynnal gweithgarwch cydymffurfio i faterion treth trethdalwyr Cymreig mewn meysydd ar wahân i CTIC. Os bydd y gweithgarwch hwnnw'n dangos unrhyw dueddiadau mewn newid i ymddygiad, caiff hwn ei ystyried yn y dyfodol.

*<u>Unigolion cyfoethog</u>*

Mae CThEM yn parhau i ddefnyddio'r model presennol ar gyfer Rheoli Cydymffurfiad Cwsmeriaid (CCM), a dulliau rhyngweithio eraill gyda chwsmeriaid cyfoethog, i godi ymwybyddiaeth, addysgu cwsmeriaid o'u hymrwymiadau CTIC ac asesu risg gydymffurfio

sy'n gysylltiedig â chamliwio statws trethdalwyr Cymreig neu danddatgan incwm sy'n agored i CTIC.

*Cydymffurfiad/sicrwydd cyflogwyr*

Mae CThEM yn awyddus i sicrhau bod y 'cod C' Cymreig yn cael ei osod yn gywir yn y gyfundrefn TWE. Mae CThEM felly wedi cynnal sganiau i brofi bod cyflogwyr yn cymhwyso'r 'codau C' a anfonwyd gan CThEM. Anfonir nodyn atgoffa at unrhyw gyflogwr nad yw'n cymhwyso'r cod cywir, ac mae CThEM yn monitro'r ymateb i'r nodynnau atgoffa hyn er mwyn nodi cyflogwyr y mae'n bosibl y bydd angen i CThEM gael cysylltiad pellach â nhw. Gostyngodd y gyfradd wall gychwynnol o 10.4% ym mis Mehefin 2019 i 3.3% ym mis Rhagfyr 2019.

## ADRAN 3 – CASGLU REFENIW CTIC A RHOI CYFRIF AMDANO

**Mae'n ofynnol i CThEM, yn unol â'r CLG, wneud y canlynol:**

- ***Casglu refeniw treth incwm Cymru o gyfraddau treth incwm Cymru a chyfrif amdano.***

Ers i gyfraddau CTIC gael eu cyflwyno ar 6 Ebrill 2019, mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) wedi parhau i weinyddu a chasglu treth incwm gan drethdalwyr Cymreig fel rhan o system dreth y DU. Mae'n talu refeniw CTIC i mewn i Gronfa Gyfunol y DU yn yr un modd ag y mae'n gwneud hynny ar gyfer pob treth arall a dderbynnir. Caiff y refeniw hwn ei drosglwyddo wedyn i Lywodraeth Cymru, a chaiff grant bloc adnoddau Llywodraeth Cymru ei ostwng yn unol â hynny, gan adlewyrchu ei phwerau codi refeniw.

Bydd CThEM yn rhoi cyfrif am swm CTIC a gesglir ac yn rhoi gwybod am hyn mewn Dyfyniad o Gyfrifon CThEM i'r Senedd bob blwyddyn, yn cychwyn yn 2021.

Ar gyfer 2019-20, bydd swm amcangyfrifedig CThEM o dderbyniadau treth incwm sy'n briodoladwy i gyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei amcangyfrif a'i ddatgelu yng nghyfrifon 2019-20 CThEM. Caiff ffigur terfynol, diweddaredig ar gyfer derbyniadau CTIC ei ddarparu yng nghyfrifon 2020-21, ac mewn cyhoeddiad ystadegol ar wahân.

Mae'r oedi wrth gadarnhau swm go iawn CTIC a gasglwyd yn 2019-20 yn deillio o'r prosesau TWE a Hunanasesiad. Er mwyn gweinyddu TWE i drethdalwyr, mae CThEM yn cynnal gwaith cysoni diwedd y flwyddyn i asesu a yw unigolion wedi talu'r swm cywir o dreth yn y flwyddyn dreth dan sylw. Ni roddir Ffurflenni Treth Hunanasesiad i CThEM, mewn rhai achosion, tan deg mis ar ôl diwedd y flwyddyn dreth y maent yn berthnasol iddi.

## ADRAN 4 – DATA AR GYFER PENNU CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU A RHAGOLYGON

**Mae'n ofynnol i CThEM, yn unol â'r CLG, wneud y canlynol:**

- ***Rhoi digon o wybodaeth a data perthnasol ac amserol i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi bennu cyfraddau a llunio rhagolygon ar gyfer treth incwm Cymru.***

Mae CThEM yn rhoi data perthnasol i Lywodraeth Cymru am CTIC. Ar lefel y DU, cyflawnir y tasgau hyn gan ddefnyddio Arolwg o Incwm Personol (SPI).

Mae'r SPI yn cael ei lunio i ddarparu sylfaen dystiolaeth fesuradwy y gellir costio newidiadau arfaethedig i gyfraddau treth, lwfansau personol a rhyddhad treth arall ar gyfer Gweinidogion y Trysorlys. Fe'i defnyddir i helpu i lywio penderfyniadau polisi o fewn CThEM a'r Trysorlys, yn ogystal ag ar gyfer dibenion modelu a rhagolygu treth[1].

Mae'r SPI yn seiliedig ar wybodaeth a ddelir gan CThEM am unigolion a allai fod yn agored i dreth y DU. Caiff ei gynnal yn flynyddol gan CThEM ac mae'n cwmpasu incwm sy'n agored i gael ei asesu am dreth bob blwyddyn dreth. Nid yw pob un o'r unigolion yn drethdalwyr oherwydd gall gweithredu rhyddhad a lwfansau personol eu heithrio rhag bod yn agored i dreth. Pan fo incwm yn fwy na'r trothwy ar gyfer gweithredu Talu Wrth Ennill (TWE), mae'r arolwg yn rhoi'r data mwyaf cynhwysfawr a chywir ar incwm personol.

Mae CThEM yn rhoi copi o set ddata SPI, sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn, i Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd set y flwyddyn hon, sy'n ymwneud â blwyddyn dreth 2017-18, i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2020 er mwyn iddi gynnal ei dyletswyddau costio polisi. Roedd y copi hwn union yr un fath â'r hyn a ddefnyddiwyd, at ddibenion tebyg, ar lefel y DU, ac eithrio cyfuno ychydig bach o ddata trethdalwyr ar y lefelau incwm uchaf er mwyn osgoi unrhyw doriadau posibl o gyfrinachedd y trethdalwr. Mae CThEM yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i sicrhau bod yr wybodaeth yn bodloni eu gofynion ac yn cefnogi rhagolygon a phennu cyfraddau ar gyfer Cymru.

Bydd y set data SPI hwn yn cael ei gyhoeddi wedyn er mwyn sicrhau bod ymchwilwyr a phobl academaidd yn ei ddefnyddio at ddibenion ystadegol.

## ADRAN 5 – DATA AR GYFER RHEOLI ARIAN LLYWODRAETH CYMRU

**Mae'n ofynnol i CThEM, yn unol â'r CLG, wneud y canlynol:**

- ***Rhoi digon o wybodaeth a data perthnasol ac amserol i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gyflawni ei dyletswyddau mewn perthynas â rheoli arian o ganlyniad i unrhyw newid rhwng y rhagolygon a'r symiau o dreth incwm Cymru a gesglir.***

O 2019-20, gyda chyflwyniad CTIC, bu gostyngiad yng ngrant bloc adnoddau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyfateb i ddeg pwynt canrannol o bob cyfradd dreth o dreth incwm nad yw'n deillio o gynilion na difidendau gan drethdalwyr Cymreig yn 2019-20, a godwyd gan ddefnyddio'r mecanwaith a nodir yn y fframwaith cyllidol a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016.

Bob blwyddyn, bydd y derbyniadau treth a gynhyrchir a'r didyniad grant bloc yn seiliedig i ddechrau ar ragolwg ac yna fe'u cysonir â derbyniadau go iawn a gasglir a ddaw yn hysbys tua 15 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol sydd dan sylw.

Un o ofynion allweddol yr CLG yw bod CThEM yn rhoi data digonol i Lywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswyddau mewn perthynas â rheoli arian sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid rhwng symiau CTIC a ragolygwyd a'r symiau a gasglwyd. Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn, mae CThEM wedi cytuno gyda Llywodraeth Cymru i roi ffigurau CTIC o'r data Gwybodaeth Amser Real (RTI) a gafwyd gan gyflogwyr. Dyma'r dangosydd gorau o dueddiadau mewn rhwymedigaethau treth incwm sydd ar gael mewn amser real, ond nid yw'n ddarlun cyflawn o rwymedigaethau treth incwm am ei fod yn eithrio treth a dalwyd drwy Hunanasesiad (a rhai addasiadau a wnaed i rwymedigaethau TWE) ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Ni fydd yr alldro cyntaf o CTIC yn cael ei gyhoeddi tan haf 2021.

Mae'r data hyn yn cael eu darparu gan CThEM i Lywodraeth Cymru yn fisol erbyn hyn.

## ADRAN 6 – GWASANAETH A CHYMORTH I GWSMERIAID

**Mae'n ofynnol i CThEM, yn unol â'r CLG, wneud y canlynol:**

- ***Rhoi'r un lefel o wasanaeth cwsmeriaid, cymorth a thryloywder i drethdalwyr Cymru, ag a roddir i dalwyr treth incwm yng ngweddill y DU.***

Gweinyddir CTIC gan CThEM fel rhan o system treth incwm y DU. Yn y mwyafrif helaeth o amgylchiadau, ni fydd trethdalwyr Cymreig felly yn gweld gwahaniaeth yn y ffordd y mae CThEM yn rhyngweithio gyda nhw. Mae'r dull hwn hefyd yn sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei gasglu.

Casglir CTIC drwy brosesau TWE a Hunanasesiad sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi cael eu haddasu i adlewyrchu cyfraddau a throthwyon CTIC. Mae trethdalwyr Cymreig yn gallu defnyddio arweiniad a sianeli cyswllt cwsmeriaid arferol CThEM i gael cyngor a gwybodaeth.

**Yn y rhan fwyaf o feysydd, bydd gwasanaeth i gwsmeriaid a roddir i drethdalwyr Cymreig yn cael ei gynnwys a'i adrodd yn yr hyn yr adroddir am wasanaethau i gwsmeriaid CThEM ar draws y DU.**

Mae'r gwasanaeth i gwsmeriaid a'r gefnogaeth ar gyfer trethdalwyr Cymraeg, asiantau a chyflogwyr y mae CThEM wedi'u gwneud yn rhan o'i brosesau presennol yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi codau treth Cymru i bob trethdalwr Cymreig a'u cyflogwyr (yn adlewyrchu'r trothwy cyfradd uwch sydd wedi newid, yn ôl penderfyniad y Senedd) cyn dechrau'r flwyddyn dreth.
- Diweddaru cyfrifianellau ar-lein cyn dechrau'r flwyddyn dreth gyda chyfraddau/trothwyon CTIC a bennwyd gan y Senedd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gywir ar gyfer trethdalwyr Cymreig.
- Arweiniad ar gyfer darparwyr meddalwedd gyflogres ar sut i wneud cyfraddau/trothwyon Cymru yn rhan o'u cynhyrchion TWE ar gyfer cyflogwyr.
- Arweiniad ar sut y penderfynir ar statws trethdalwr Cymreig a'r hyn i'w wneud os ydych o'r farn bod CThEM wedi nodi eich statws yn anghywir.
- Annog cwsmeriaid i ddiweddaru eu manylion personol, gan ganolbwyntio ar y defnydd o'r Cyfrif Treth Personol.
- Anfon tablau treth papur at gyflogwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol cyn dechrau'r flwyddyn dreth yn adlewyrchu cyfraddau a throthwyon Cymru.

Er bod trethdalwyr Cymreig yn rhyngweithio'n bennaf gyda CThEM drwy brosesau sy'n bodoli eisoes, a bod y gwasanaeth i gwsmeriaid felly yn cael ei adrodd o fewn ffigurau'r DU, mae rhai elfennau o wasanaeth i gwsmeriaid yn benodol i CTIC e.e. arweiniad ar statws

trethdalwyr Cymreig a'u gallu i drafod gyda CThEM os ydych yn anghytuno gyda'r statws preswylio Cymreig a roddwyd i chi.

Mae'n bwysig bod CThEM yn gallu dangos bod ei wasanaeth i gwsmeriaid yn y meysydd hyn yn cyfateb i'r hyn y mae'n ei ddarparu ar draws y DU gyfan. Felly, mae'r CLG rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo CThEM i gasglu ac adrodd ar fetrigau cyswllt cwsmeriaid allweddol sy'n benodol i CTIC. Mae'r metrigau allweddol ar gyfer 2019-20 wedi'u hamlinellu yn Atodiad A o'r adroddiad hwn, sef yr Adroddiad Gwybodaeth Busnes Blynyddol.

**Gwasanaeth Cymraeg**

Mae gan CThEM wasanaeth Cymraeg sydd wedi'i hen sefydlu ers dros 25 mlynedd ac sy'n cael ei ddarparu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cyflogir tua 32 o staff amser llawn ar gyfer gwaith Cymraeg.

Mae CThEM yn darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau Cymraeg drwy ddau dîm penodedig o siaradwyr Cymraeg – mae un ym Mhorthmadog a'r llall yng Nghaerdydd. Maent yn darparu gwasanaeth i gwsmeriaid a gwasanaeth cyfieithu, yn ogystal â helpu adrannau eraill yn CThEM gyda materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae hefyd uwch-reolwr dynodedig dros yr iaith Gymraeg sy'n siarad yr iaith ac sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Dyma'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob mater Cymraeg yn CThEM.

Cefnogir cymorth CTIC i gwsmeriaid Cymraeg gan y ddau dîm mewn amryw o ffyrdd. Mae CThEM hefyd yn cynnig opsiwn gwasanaeth Cymraeg i gwsmeriaid o'r brif linell gymorth Treth Incwm. Mae CThEM yn cael tua 20,000 o alwadau bob blwyddyn gan gwsmeriaid Cymraeg ar draws pob un o'n gwasanaethau i gwsmeriaid.

## ADRAN 7 - AILGODI TÂL AM GOSTAU CTHEM

**Mae'n ofynnol i CThEM, yn unol â'r CLG, wneud y canlynol:**

- ***Rhoi digon o wybodaeth berthnasol ac amserol i Lywodraeth Cymru at ddibenion sicrwydd ac er mwyn cyllidebu'n effeithiol ar gyfer unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol net yr ailgodir tâl ar Lywodraeth Cymru amdanynt.***

O dan y Cytundeb Fframwaith Cyllidol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu CThEM am unrhyw gostau ychwanegol net yr eir iddynt yn gyfan gwbl ac o anghenraid o ganlyniad i roi pwerau CTIC ar waith a'u gweithredu.

Mae CThEM wedi gwneud newidiadau i'w systemau a phrosesau er mwyn sicrhau bod CTIC yn cael eu casglu a'u rheoli yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae costau gweinyddol newydd a pharhaus o ran gweithredu prosesau a systemau CTIC yn gysylltiedig â'r newidiadau hyn.

Mae CThEM a Llywodraeth Cymru ar y cyd wedi cytuno ar fframwaith sy'n nodi'r egwyddorion y bydd CThEM yn eu rhoi ar waith wrth nodi'r costau gweinyddol o ran CTIC a fydd yn cael eu hailgodi ar Lywodraeth Cymru.

Mae dogfen y Fframwaith yn cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu pob cost weinyddol sy'n hysbys ac a ragwelir. Dylid ei darllen ar y cyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r CLG (sy'n atodiad iddo) rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru.

**Costau gweinyddu CTIC**

| | 2017-18 (£m) | 2018-19 (£m) | 2019-20 (£m) |
|---|---|---|---|
| Costau rhoi ar waith | 0.29 | 5.44 | 1.77 |
| Costau gweithredu | Amherthnasol | Amherthnasol | 0.23 |
| Cyfanswm cost cyfraddau treth incwm Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol[1] | 0.34 | 5.80 | 1.60 |

[1] Mae'n bosibl nad y ffigurau a ddangosir yw'r union swm o'r costau rhoi ar waith a gweithredu o ganlyniad i amserlenni anfonebu.

**ATODIAD – ADRODDIAD GWYBODAETH BUSNES BLYNYDDOL 2019-20**

**Cyswllt â chwsmeriaid – dros y ffôn**

Cyflwynodd CThEM lwybr ffôn ar gyfer treth incwm Cymru o fewn llinell gymorth Treth Personol CThEM. Mae hyn yn rhoi negeseuon cyffredinol wedi'u recordio i gwsmeriaid ar dreth incwm Cymru cyn iddynt siarad ag Ymgynghorydd Cwsmeriaid CThEM. Mae'r siartiau isod yn olrhain galwadau i'r llinell ffôn ar gyfer treth incwm Cymru. Sylwer - nid yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli pob galwad sydd wedi'i gwneud gan drethdalwyr Cymreig.

| Mis | Cyfanswm y galwadau | Wedi'u hateb | Amser galwad ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|
| Ebr-19 | 0 | 0 | |
| Mai-19 | 0 | 0 | |
| Meh-19 | 0 | 0 | |
| Gorff-19 | 0 | 0 | |
| Awst-19 | 0 | 0 | |
| Medi-19 | 1 | 1 | 00:01:21 |
| Hyd-19 | 1 | 1 | 00:01:31 |
| Tach-19 | 1 | 1 | 00:01:31 |
| Rhag-19 | 0 | 0 | |
| Ion-20 | 0 | 0 | |
| Chwe-20 | 0 | 0 | |
| Maw-20 | 0 | 0 | |

**Cwynion**

Mae CThEM yn olrhain pob cwyn gan gwsmeriaid ynghylch treth incwm Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu prosesu o fewn targedau gwasanaethau i gwsmeriaid CThEM. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli pob cwyn sydd wedi dod i law gan drethdalwyr Cymreig.

| Mis | Cwynion sydd wedi dod i law | > Cwyn Haen 1 | Wedi'i chadarnhau | Wedi'i chadarnhau'n rhannol | Heb ei chadarnhau | Llai na 15 diwrnod | Mwy na 15 diwrnod | 19/20 targed o 15 diwrnod (80%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebr-19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mai-19 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Meh-19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gorff-19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Awst-19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Medi-19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hyd-19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tach-19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhag-19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ion-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwe-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Maw-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Mae manylion pob cyswllt gyda chwsmer wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol CThEM.[2]

[2] https://www.gov.uk/government/publications/hmrc-annual-report-and-accounts-2018-to-2019

**Chwiliadau ar y we**

Mae gan CThEM nifer o dudalennau gwe sy'n ymwneud â threth incwm Cymru sy'n cael eu cynnal ar gov.uk. Caiff chwiliadau ar y tudalennau hyn eu monitro.

| Mis | welsh-income-tax | treth-incwm-cymru | hmrc-internal-manuals/welsh-taxpayer-technical-guidance | rhoi-gwybod-i-cthem-newid-manylion |
|---|---|---|---|---|
| Ebr-19 | 12,147 | 92 | 134 | 180,209 |
| Mai-19 | 8,258 | 43 | 54 | 179,413 |
| Meh-19 | 5,791 | 28 | 56 | 149,142 |
| Gorff-19 | 5,530 | 28 | 76 | 169,000 |
| Awst-19 | 5,010 | 22 | 53 | 156,589 |
| Medi-19 | 4,723 | 22 | 32 | 161,188 |
| Hyd-19 | 5,129 | 40 | 46 | 161,645 |
| Tach-19 | 5,103 | 26 | 42 | 142,601 |
| Rhag-19 | 3,220 | 23 | 25 | 93,810 |
| Ion-20 | 2,864 | 17 | 18 | 109,261 |
| Chwe-20 | 3,369 | 28 | 49 | 101,372 |
| Maw-20 | 3,370 | 23 | 27 | 113,309 |